Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Canllaw Cynllunio Atodol

# Llety Ymwelwyr

*(Fersiwn Mabwysiedig)*

Ionawr 2020

8



# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:
# 8) LLETY YMWELWYR

**Deddf yr Amgylchedd 1995**

*61. Dibenion y Parciau Cenedlaethol.*
*Bydd darpariaethau'r Rhan hon o'r Ddeddf hon yn effeithiol i'r pwrpas -*

*(a) o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd a bennir yn yr is-adran ganlynol nesaf; ac*

*(b) i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny.*

**Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10 - Rhagfyr 2018**

*6.3.6 Dylai awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol roi pwys mawr ar ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol, sef gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu priodoleddau. Dylai awdurdodau cynllunio fynd ati hefyd i feithrin llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau lleol.*

*6.3.9 Dylid rhoi pwys mawr ar rinweddau arbennig ardaloedd dynodedig wrth baratoi cynlluniau datblygu ac yn y broses rheoli datblygu. Rhaid asesu cynigion mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE [Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol] yn ofalus i wneud yn siŵr bod eu heffeithiau ar y nodweddion hynny sydd i fod i gael eu gwarchod gan y dynodiad, yn dderbyniol. Rhaid i gyfraniad datblygiad at reoli'r ardal ddynodedig yn gynaliadwy gael ei ystyried.*

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

*Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n golygu bod rhaid i gorff cyhoeddus diffiniedig weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod lles:*

- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*
- *Cymru lewyrchus*
- *Cymru gydnerth*
- *Cymru iachach*
- *Cymru sy'n fwy cyfartal*
- *Cymru o gymunedau cydlynus*
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

**Cynllun Datblygu Lleol Eryri: Amcanion ar gyfer Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy**

*Annog twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cynnal cymunedau bywiog.*

*Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n uchafu buddiannau economaidd lleol, lleihau effaith amgylcheddol i'r eithaf, a sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.*

## Cynnwys


1 Cyflwyniad ....................................................................................................7

2 Statws...........................................................................................................8

**Rhan Un: Deddfwriaeth, Canllawiau ac Ystyriaethau ar gyfer pob Datblygiad Llety Ymwelwyr**

3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru (Rhifyn 10 - Rhagfyr 2018)..........................9

4 Twristiaeth a'r Parc Cenedlaethol.....................................................................11

5 Twristiaeth Gynaliadwy neu Eco......................................................................12

6 Ystyriaethau Tirwedd......................................................................................13

7 Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau.................15

8 Dogfennau ategol gyda cheisiadau cynllunio.....................................................17

**Rhan Dau: Gwybodaeth a Chanllawiau ar Ddatblygiadau Penodol**

9 Llety a Wasanaethir........................................................................................20

10 Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd...............................22

11 Llety Hunan-Wasanaeth a Throsiadau ...............................................................24

12 Gwelliannau i safleoedd cabanau a charafannau sefydlog presennol ................27

13 Safleoedd teithiol a gwersylla ........................................................................29

14 Cais am estyniadau i'r tymor ar Safleoedd Carafannau Teithiol ..........................30

15 Carafanau Teithiol - Storio dros y Gaeaf ..........................................................30

16 Cais am estyniadau i'r tymor ar Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog ....30

17 Llety Gwyliau Amgen......................................................................................31

Tai coed........................................................................................................35

**Atodiad 1**: Y Materion Tirwedd ar gyfer Cynigion Llety i Ymwelwyr i'w hystyried...........36

**Atodiad 2**: Geirfa.............................................................................................37

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ddogfennau o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n rhoi gwybodaeth fanwl ar sut y bydd y polisïau a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) yn cael eu cymhwyso yn ymarferol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol Eryri. Mae cynnwys y CCA hwn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ac fe'i bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan swyddogion cynllunio, arbenigwyr cynllunio ac aelodau o'r cyhoedd. Nod cynnwys y ddogfen hon yw rhoi arweiniad manwl pellach ar Lety Ymwelwyr o fewn Ardal Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.2 Pwrpas y Canllaw Cynllunio Atodol hwn yw;

- Darparu canllawiau manwl i gefnogi polisïau mewn perthynas â Llety Ymwelwyr;
- Rhoi arweiniad manwl pellach i ddefnyddwyr y system gynllunio ar sut y bydd y polisïau'n cael eu cymhwyso;
- Rhoi mwy o arweiniad ar yr hyn olygir gan welliannau amgylcheddol a thirwedd gan gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth yn arbennig ar safleoedd presennol, ac arweiniad ynghylch datblygiadau newydd;
- Darparu trosolwg o wahanol fathau o Lety Ymwelwyr fel Llety a Wasanaethir wedi ei Adeiladu o'r Newydd a Llety Hunanwasanaeth, Trosiadau, Gwelliannau i Safleoedd Cabanau, Charafanau Sefydlog, Safleoedd Teithio a Gwersylla, yn ogystal â Llety Gwyliau Amgen;
- Rhoi arweiniad i gynorthwyo Swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau Llety Ymwelwyr, a darparu dealltwriaeth o'r amcanion ynghylch y math hwn o ddatblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol.
- Darparu arweiniad a gwybodaeth ynglŷn â datblygiadau Llety Ymwelwyr o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer yr Arolygaeth Cynllunio, Ymgyngoreion Statudol, Cynghorau Cymuned, aelodau o'r Cyhoedd, a phartïon eraill â diddordeb.

1.3 Mae ymgysylltu cyn gwneud cais yn cynnig y potensial i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system o wneud cais cynllunio a gwella ansawdd ceisiadau cynllunio. Mae'r Awdurdod yn ymrwymo i weithio gydag ymgeiswyr yn ystod y cam cyflwyno cais, ac yn annog trafodaethau cyn cyflwyno cais ar gyfer pob math o ddatblygiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod; http://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-permission/pre-application-enquiry?name=

**Dylai'r arweiniad hwn gael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhoi arweiniad ychwanegol i'r polisïau sydd yn y CDLl sy'n gysylltiedig â Lletai Ymwelwyr. Mae'n rhaid i'r cynigion gydymffurfio â'r polisïau a'r canllawiau a ddarperir. Mae nodiadau ochr wedi'u cynnwys yn Rhan Dau sy'n croesgyfeirio'r ddogfen hon gyda paragraff(au) mwyaf perthnasol y CDLl 2016-2031 a fabwysiadwyd.**

## 2 Statws

2.1 Mae'r CCA hwn wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus, ac wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod. Mae nawr yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau mewn perthynas â datblygiadau Lletai Ymwelwyr.

2.2 Mae'r canllaw hwn yn darparu cefnogaeth ar gyfer y polisïau a ganlyn mewn perthynas â Llety Ymwelwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE);

- **Polisi Datblygu 9: Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig**
- **Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabannau a Charafanau Sefydlog**
- **Polisi Datblygu 23: Safleoedd Carafnnau Teithiol a Gwersylla**
- **Polisi Strategol I: Twristiaeth**
- **Polisi Datblygu 28: Lletai wedi'u Gwasanaethu wedi eu Hadeiladu o'r Newydd**
- **Polisi Datblygu 29: Llety Gwyliau Amgen**

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Bydd pob cynnig datblygu yn cael ei werthuso yn ôl ei deilyngdod ei hun ar y cyd â Pholisïau a Chanllawiau Cenedlaethol a Lleol.

2.3 Gellir dosbarthu rhai cynigion llety ymwelwyr mawr fel datblygiadau mawr ac felly byddai'n rhaid eu hystyried yn erbyn Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth gefnogi egwyddorion twristiaeth a datblygiad cynaliadwy, a chydymffurfio â'r polisïau perthnasol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Dylai'r cynnig fod yn gydnaws â chymeriad a chynhwysedd y safle, yn enwedig o ran maint a lleoliad yn y tirlun ac yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol a Pholisi Datblygu 2: Datblygiad a'r Tirwedd.

# Rhan Un: Deddfwriaeth, Canllawiau ac Ystyriaethau ar gyfer pob Datblygiad Llety Ymwelwyr

## 3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru (Rhifyn 10 - Rhagfyr 2018)

3.1 Nodir nod Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth ym mharagraff 5.5.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ac mae'n datgan fel a ganlyn:

*"Mae'r system gynllunio'n annog twristiaeth os yw'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, ac mae'n cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Mae'r system gynllunio'n gallu helpu hefyd i wella'r ymdeimlad o le mewn ardal sydd â gwerth cynhenid a diddordeb i dwristiaeth. Yn ogystal â chefnogi llwyddiant parhaus ardaloedd twristiaeth presennol, anogir datblygiadau priodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn cyrchfannau newydd. Mewn rhai mannau, fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddatblygiad newydd i osgoi difrod i'r amgylchedd neu i amwynder pobl leol ac ymwelwyr."*

3.2 Mae PCC (argraffiad 10) paragraff 5.5.3, 5.5.4 a 5.5.6 yn nodi:

*"5.5.3 Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiad yn gysylltiedig â thwristiaeth yn elfen bwysig o ddarparu economi iach ac amrywiol. Yma, dylai datblygiad fod yn ystyriol o'r amgylchedd lleol o ran natur a maint."*

*"5.5.4 Mae llawer o'r ddarpariaeth bresennol o ran cyfleusterau a llety ar gyfer twristiaeth mewn lleoliadau trefol, gan gynnwys trefi a dinasoedd hanesyddol ac arfordirol. Bydd yna le i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth wedi'u dylunio'n dda mewn ardaloedd trefol, yn enwedig os byddant yn helpu i adfywio hen ardaloedd diwydiannol. Mae ailwampio ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol mewn ffordd sensitif yn cyflwyno cyfleoedd i gyfleusterau twristiaeth ym mhob ardal."*

*"5.5.6 Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon uchel sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n dda. Dylent ystyried maint a dosbarthiad eang atyniadau presennol ac arfaethedig i dwristiaid a dylent sicrhau bod modd darparu datblygiadau cyflenwol megis llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar yr effeithiau amgylcheddol negyddol yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth."*

3.3 Cyflwynodd Adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 dyletswydd gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, cefnogir hyn ymhellach ym Mhennod 6 o PCC (Argraffiad 10) a llythyr PSC dyddiedig 23.10.2019[1],

*" 6.4.5 Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu na ddylai datblygu arwain at gollediad mawr i gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaeth, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth..."*

(Llythyr PSC) "...*ble na fydd gwella bioamrywiaeth yn cael ei gynnig fel rhan o gais, byddwn yn rhoi pwyslais sylweddol ar y ffaith nad yw'n bresennol, ac os nad oes ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, bydd angen gwrthod y caniatâd."*

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/sicrhau-gwelliannu-i-fioamrywiaeth.pdf

Felly, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn ystyried ystyriaethau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystem yn gynnar yn natblygiad unrhyw gynnig ac i gynnwys manylion am sut y bydd eu cynnig yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth y safle fel rhan o'u cyflwyniad cais.

3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried yr uchod i gyd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac yn benodol y dylai datblygiad mewn ardaloedd gwledig fod yn gydnaws â natur a graddfa yr amgylchedd lleol.

3.5 Yn ogystal, o fewn cyd-destun y Polisi Cenedlaethol, ceir gwybodaeth a chanllawiau ar Llety Ymwelwyr o fewn Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a NCT 13: Twristiaeth.

## 4 Twristiaeth a’r Parc Cenedlaethol

4.1 Dynodwyd Tirwedd Eryri fel Parc Cenedlaethol oherwydd ei golygfeydd ysblennydd, harddwch naturiol a’i threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, sydd oll yn cyfrannu at y 'Rhinweddau Arbennig'. Mae'r 'Rhinweddau Arbennig' hyn yn cynnwys mynyddoedd garw, rhostiroedd uchel, dyffrynnoedd coediog, llynnoedd, rhaeadrau, aberoedd, arfordir, a llawer o adeiladau traddodiadol a hanesyddol o arwyddocâd diwylliannol. Mae rhai tirweddau ucheldirol, lle mae datblygiad yn brin neu'n absennol, yn gynhenid yn dywyll yn ystod y nos a gellir eu hystyried yn 'Dirweddau Tywyll'. Yn 2015, dyfarnwyd statws Gwarchodfa Awyr Dywyll i'r Parc Cenedlaethol. Mae hon yn wobr fawreddog a roddir ar gyfer yr ardaloedd hynny lle ystyrir bod ansawdd yr awyr nosol yn rhagorol a lle rhoddwyd mesurau i leihau llygredd golau ymwthiol yn eu lle. Felly mae'r Awdurdod yn ymroddedig i warchod a hyrwyddo’r Warchodfa Awyr Dywyll am ei bod yn cyfrannu at dawelwch nosol a synnwyr o wylltineb Eryri, ac fe all arwain at fanteision iechyd a lles ehangach i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae canllaw datblygu ar gyfer y Warchodfa Awyr Dywyll i'w weld yn CCA 14: Goleuo Ymwthiol.

4.2 Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i hyrwyddo diogelu, rheoli a chynllunio tirwedd Eryri yn unol â Pholisi ac Arweiniad Lleol, Cenedlaethol ac Ewropeaidd.

4.3 Mae 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn sylfaen arwyddocaol ar gyfer ffyniant yr economi, cyflogaeth a thwristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri, yn enwedig gan fod twristiaeth yn un o'r prif gyflogwyr. Gan mai 'Rhinweddau Arbennig' y Parc yw'r prif atyniad, mae'n hanfodol eu diogelu a sicrhau bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i ystyried y Rhinweddau Arbennig hyn fel blaenoriaeth. Bydd yn brif amcan i'r CCA hwn ddarparu arweiniad pellach ar y polisïau o fewn y CDLl sy'n anelu at warchod a gwella'r rhinweddau arbennig a hyrwyddo cyfleoedd i'w deall a'u mwynhau.

4.4 Yn ôl arolwg STEAM[2] (2017), bu cynnydd o 7.2% yn nifer o ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol ers 2008. Yn ogystal, ers 2016 bu cynnydd o 5.6% yn nifer o ymwelwyr aros; gyda chynnydd o 1.2% yn aros mewn llety â gwasanaeth, a chynnydd o 7% yn aros mewn llety hunan-wasanaeth. Gallai’r ffigyrau hyn fod yn ganlyniad i’r nifer ac argaeledd y math hwn o lety (hunan-wasanaeth) sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol. Felly mae’r polisiau yn y CDLl, y mae’r CCA hwn yn darparu arweiniad pellach, yn hyrwyddo datblygu ystod o lety ymwelwyr priodol i fynd i’r afael â’r anghenion adnabyddedig ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

[2] Monitor Gweithgaredd Economiadd Twristiaeth Scarborough (The Scarborough Tourism Economic Activity Monitor)

## 5 Twristiaeth Gynaliadwy neu Eco

5.1 Mae rôl bwysig twristiaeth yn yr economi leol yn cael ei gydnabod gan yr Awdurdod, ac mae'r polisïau o fewn y CDLl yn gefnogol i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig Polisi Strategol I.

5.2 Twristiaeth gynaliadwy fel y'i diffinnir gan Siarter Ewrop ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy, '*yw unrhyw fath o weithgaredd datblygu, rheoli neu dwristaidd sy'n sicrhau gwarchodaeth a chadwraeth hir dymor adnoddau naturiol, diwylliannol a chymdeithasol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol a theg at ddatblygiad economaidd a lles unigolion sy'n byw, yn gweithio neu'n aros yn yr ardaloedd gwarchodedig.'*

5.3 Mae'r Gymdeithas Ecodwristiaeth Ryngwladol yn diffinio Ecodwristiaeth fel, '*teithio cyfrifol i ardaloedd naturiol sy'n gwarchod yr amgylchedd, yn cynnal lles y bobl leol, ac yn cynnwys dehongli ac addysg.'*

**Nodweddion a fyddai'n cynorthwyo i sefydlu Cynnig Twristiaeth Gynaliadwy:**

- ☐ Nid yw'n cael effaith niweidiol ar Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.
- ☐ Nid yw'n cael effaith andwyol ar y tirlun, ardaloedd neu nodweddion tirwedd gwarchodedig, pwysigrwydd treftadaeth neu fioamrywiaeth gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a chofrestriad Parciau a Gerddi Hanesyddol.
- ☐ Mae'n osgoi effeithiau andwyol ar nodweddion heb eu dynodi o'r amgylchedd hanesyddol neu'n cynnwys gweithredu mesurau priodol i liniaru unrhyw effeithiau o'r fath.
- ☐ Mae'n rhoi cyfle i bobl ddeall a mwynhau Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol fel ei harddwch, ei dawelwch, yr amgylchedd hanesyddol a'i ddiwylliant eithriadol.
- ☐ Mae'n gwasanaethu ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd ac yn cynhyrchu manteision i'r economi a'r gwasanaethau lleol.
- ☐ Mae mewn lleoliad cynaliadwy o fewn neu'n agos at aneddiadau presennol neu o fewn atyniad twristiaeth bresennol gyda chyfleusterau a seilwaith presennol.
- ☐ Mae'n hygyrch ar gyfer gwahanol ddulliau trafnidiaeth, e.e. trên, bws, llwybrau beicio a llwybrau cerdded.
- ☐ Mae ganddo gysylltiadau da â'r rhwydwaith ffyrdd presennol.
- ☐ Mae'n ystyried mynediad pob gallu.
- ☐ Mae'n gwneud defnydd priodol o adeiladau presennol a thir a ddatblygwyd o'r blaen.
- ☐ Mae'n parchu gosodiad yr adeilad (au) presennol o ran graddfa, dyluniad a deunyddiau.
- ☐ Mae'n gwneud defnydd effeithlon o ynni ac yn defnyddio adnoddau adnewyddadwy heb niweidio'r amgylchedd.
- ☐ Mae'n cydymffurfio â pholisïau'r CDLl.

# 6 Ystyriaethau Tirwedd

6.1 Er mwyn gwarchod a gwella tirwedd Eryri gan hefyd yn meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol, **mae'n hollbwysig** fod pob datblygiad yn anymwthiol o fewn lleoliad addas ac nad ydynt yn achosi effeithiau andwyol sylweddol ar Rinweddau Arbennig ac amwynderau gweledol y Parc, neu unrhyw safleoedd a ddiogelir a dynodedig.

6.2 Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch ystyriaethau tirwedd ar gyfer datblygu i'w gweld yn CCA 7: Tirweddau a Môrluniau Eryri a CCA 13: Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd.

6.3 Efallai y bydd angen Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli o fewn, neu yn rhannol o fewn 'ardal sensitif' neu sy'n dod o fewn Atodlen 2 o'r Rheoliadau[3] ac yn fwy na'r trothwyon perthnasol. Byddai angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol o dan yr amgylchiadau hyn. Dylai'r Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol gael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Tirlunio ac Asesiad o'r Effaith Weledol, 3ydd Argraffiad (Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (2013) neu unrhyw ddiweddariadau a wnaed wedi hynny gan weithiwr proffesiynol tirlun. Lle mae ceisiadau cynllunio'n codi pryderon am effeithiau ar y tirlun a / neu amwynderau gweledol, efallai y bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol bod angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Gweledol. Yr hyn fyddai hyn yn ei olygu yw y bydd angen adroddiad byr gyda disgrifiad o'r safle, ei nodweddion tirwedd, y nodweddion treftadaeth naturiol ac adeiledig, ei gymeriad nosol a lleoliad a natur golygfeydd cyhoeddus / preswyl o'r safle. Byddai lluniau, cynllun anodedig o osodiad y safle, a bras ddarluniau yn ddefnyddiol i esbonio'r safle presennol a'r cynnig datblygu. Byddai angen i'r adroddiad ddangos sut mae'r cynnig cynllunio yn mynd i'r afael â'r materion tirwedd a'r effeithiau gweledol mewn modd cadarnhaol.

6.4 Er mwyn cynnal natur unigryw a chymeriad aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig bod y raddfa a'r dyluniad yn gynaliadwy, a bod deunyddiau'r datblygiad, yn briodol ac yn cydymffurfio â'i hamgylchoedd. O fewn **Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy** o'r CDLl, rhestrir gofynion perthnasol er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy priodol o fewn y Parc Cenedlaethol. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.20 o'r CDLl, mae'r traddodiad cyfoethog o arddulliau adeiladu ac amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n nodweddu'r persaerniol frodorol leol yn rhan sylweddol o gymeriad y Parc Cenedlaethol. Er nad yw rhai o'r adeiladau presennol hyn o statws 'Adeilad Rhestredig', mae angen amddiffyn adeiladau traddodiadol o hyd rhag datblygiad amhriodol – gweler Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol.

6.5 Mae gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol ynglŷn â dyluniad a datblygiad cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol i'w weld yn CCA 1: Dyluniad Cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a CCA 12: Galluogi Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.

6.6 Bydd ystyriaeth nid yn unig yn cael ei roi i nodweddion esthetig gweladwy llain o dir, gan fod tirwedd Eryri hefyd yn cynnwys tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol, tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, a thirwedd Weledol a Synhwyraidd. Bydd y rhain i gyd yn ystyriaethau perthnasol wrth bennu ceisiadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol.[4]

6.7 Yn ogystal, ystyriaethau perthnasol eraill y gall fod angen eu hasesu o ran tirlun a lleoliad

---

[3] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

[4] Gall LANDMAP ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer y safle a'i gyd-destun gweledol. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth sylfaenol hon trwy'r porth Lle ac Archwilio, neu drwy https://landmap-maps.naturalresources.wales/. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cyfarwyddiadau systematig ar sut i ddefnyddio'r adnodd GN2 Accessing LANDMAP Information.

yw Dynodiadau Coetiroedd Hynafol, Gorchmynion Cadw Coed, Gwarchodfeydd Natur Leol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a Safleoedd RAMSAR, ac ardaloedd eraill o arwyddocad ecolegol.

## 7 Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau

7.1 Fel y nodwyd o fewn y CDLl, mae'r Iaith Gymraeg yn sylfaenol i gyfoeth diwylliannol Eryri. Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol yr holl gymunedau yn Eryri. Mae cynnal a sicrhau ffyniant yr iaith yn y dyfodol yn ffurfio rhan amlwg o'r gwaith amddiffyn treftadaeth o fewn y Parc, a thrwy hynny'n cyflawni un o brif amcanion y Parciau Cenedlaethol a'u dyletswydd gysylltiedig i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

7.2 Dywed PCC (Rhifyn 10) para 3.25 y canlynol ynglŷn â'r Gymraeg a Chreu Lleoedd;

*'Mae'r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.'*

7.3 Ynghylch hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy, un o amcanion y CDLl yw hyrwyddo mesurau i annog datblygiadau sy'n cefnogi bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n anwybyddu'r effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cydymffurfio gyda nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Fe'i sefydlir yn bennaf o fewn Polisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau a CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

**Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau (18)**

Wrth bennu'r holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

i. Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integredd yr iaith Gymraeg.

ii. Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:

a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda cais cynllunio am safleoedd ar hap annisgwyl ar gyfer 5 neu fwy o unedau preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m² neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.

b) Asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda'r cais cynllunio ble fo datblygiadau ar raddfa fwy. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na'r trothwyon a amlinellwyd ym maen prawf (a) ac maent yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu neilltuo, meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol a sydd ddim yn perthyn i bolisïau penodol yn y Cynllun.

iii. Lliniaru rhag effaith andwyol trwy ei gwneud yn ofynnol dan yr amgylchiadau priodol am gyfraniad ariannol trwy gyfrwng cytundeb Adran 106.

iv. Annog yr holl arwyddion gan gyrff cyhoeddus a gan gwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig i amddiffyn a hyrwyddo amwynder diwylliannol nodedig y Parc Cenedlaethol.

v. Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd ac enwau tai a strydoedd.

7.4 Yn ehangu ar y meini prawf gosodwyd o fewn Polisi Datblygu 18, mabwysiadwyd a nodwyd o fewn CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Medi 2011) para 8.3

> *'Os yn nhyb yr Awdurdod, y dangosir yn glir bod y datblygiad yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned ac andwyol ar yr iaith Gymraeg, mae'n bosibl i'r Awdurdod Cynllunio wrthod y cais am y rhesymau hyn yn unig.'*

Mae canllawiau pellach ynglŷn â chynigion datblygu mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg, a chyngor ar baratoi'r datganiadau ac asesiadau a drafodir ym meini prawf (ii), ar gael yn CCA 3. Yn ogystal, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn annog enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, ac arwyddion dwyieithog neu Gymraeg fel yr amlinellir ym maen prawf (iv) Polisi Datblygu 18.

7.5 Mae rhagor o arweiniad ar gael o fewn NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg.

## 8 Dogfennau ategol gyda cheisiadau cynllunio

8.1 Mae canllawiau yn atodiad 1 yn hysbysu'r ystod gyffredinol o faterion tirwedd sy'n ymwneud â Llety i Ymwelwyr y mae'n rhaid i Swyddogion Cynllunio eu hystyried wrth asesu cynigion datblygu er mwyn sicrhau a diogelu bod 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod a gwella. Mae'r canllawiau canlynol ynghylch dogfennau ategol gyda cheisiadau cynllunio, yn hysbysu'r wybodaeth bosibl y gall Swyddogion Cynllunio ofyn amdani er mwyn cynnal asesiad priodol i ddod i benderfyniad gwybodus ynghylch pob cynnig datblygu.

Er mwyn cynorthwyo i benderfynu ar geisiadau, gall Swyddogion Cynllunio ofyn am wybodaeth ychwanegol lle bo'n briodol, megis;

- Asesiad o Effeithiau Gweledol ar y Dirwedd (AEGT) ar gyfer datblygiad Asesiad o Effaith Amgylcheddol (AEA), neu Werthusiad (i ddangos sut mae'r cynnig cynllunio yn mynd i'r afael â chyd-destun tirwedd a gweledol y datblygiad yn gadarnhaol).
- Cynllun Tirweddu.
- Asesiad Ecolegol; gan gynnwys arolwg o rywogaethau a warchodir.
- Y deunyddiau adeiladu arfaethedig, y manylion a'r defnydd a wneir o liw (i ategu'r adeiladau lleol brodorol a / neu gyflawni integreiddiad da gyda'r dirwedd).
- Cynllun Rheoli (ar gyfer materion megis traffig / parcio ac adfer / cynllun adfer unrhyw nodweddion pe bai'r defnydd yn dod i ben).
- Cynllun goleuo, (i safonau awyr dywyll ac i osgoi effeithiau nosol ymwthiol y tu hwnt i'r safle).
- Cynllun Busnes ar gyfer cynllun arallgyfeirio amaethyddol neu ar gyfer atyniad ymwelwyr presennol.
- Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol a/neu Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol.

Wrth gyflwyno cais cynllunio, bydd yr Awdurdod yn disgwyl i ddatblygwyr ddarparu digon o dystiolaeth i gefnogi'r cais. Pan fydd Swyddogion Cynllunio o'r farn ei bod yn briodol, gallai'r dystiolaeth hon gynnwys y canlynol;

- ☐ Y rheswm dros ddymuno ymestyn (lle bo hynny'n berthnasol).
- ☐ Tystiolaeth o Welliannau Bioamrywiaeth yn gymesur â graddfa'r datblygiad (gweler para 3.3 o'r CCA)
- ☐ Y gwelliannau amgylcheddol a bioamrywiaeth sylweddol a pharhaol a gynigir. Gallai'r rhain gynnwys;[5]
    - o tirlunio mwy effeithiol yn ystod y flwyddyn,
    - o llai o ddwysedd mewn ardaloedd sy'n weladwy o fannau cyhoeddus, wedi'i gyfuno â phlannu ychwanegol (na fydd yn cael ei gynyddu wedyn),
    - o y defnydd o liwiau a deunyddiau tirlun trawiadol ar ddrychiadau a thoeau datblygu a welir o'r tirlun ehangach,
    - o gwell blaen (ffryntiadau) a mynedfeydd gwell i'r safle,
    - o mwynderau ymwelwyr a chyfleusterau gwell fel mannau chwarae o fewn y safle.
- ☐ Fel rhan o'r cais cynllunio, disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu Prif Gynllun i safon broffesiynol o'r safle gan gynnwys unrhyw gynigion tirlunio sy'n dangos yn glir y cyfleusterau a'r cynllun presennol a'r cynigion ar gyfer newid.
- ☐ Dylid rhoi ystyriaeth i'r Dynodiad Awyr Dywyll a gwarchod tirluniau'r nos dywyll.
- ☐ Darluniau sy'n dangos lleoliad nodweddion tirwedd bresennol (coed, llwyni, ardaloedd plannu, gwrychoedd ac ati) gan gynnwys colli neu gadw unrhyw un o'r llystyfiant hwn yn y cynigion
- ☐ Efallai y bydd angen Asesiad Ecoleg gan gynnwys arolwg coed os oes unrhyw goed sydd â pharthau amddiffyn gwraidd ar y safle neu'n agos ato.
- ☐ Lleoliad a chadw nodweddion tirwedd hanesyddol.
- ☐ Lluniadau dylunio manwl a manylebau ysgrifenedig ar gyfer nodweddion tirwedd galed, er enghraifft: cadw strwythurau, palmentydd, arwynebau, ymylon, grisiau, triniaethau ffiniol, goleuadau, dodrefn stryd, meysydd parcio, strwythurau, offer chwarae, mannau storio, cyfleusterau beicio, arwyddion, ardaloedd graean, clogfeini, ffynhonnau ac elfennau eraill sydd a wnelo gwaith allanol.
- ☐ Lluniadau dylunio manwl a manylebau ysgrifenedig ar gyfer nodweddion tirwedd feddal, ee: symud tir a newidiadau i gyfyngiadau safle, tynnu neu lenwi â phridd, gan gynnwys lefelau gwybodaeth neu draws-adrannol i nodi unrhyw newidiadau sylweddol yn y lefelau. Hefyd: ardaloedd i'w hadu, wedi'u gorchuddio â thyweirch neu wedi'u plannu â choed, llwyni, gorchudd daear, plannu llysieuol, gwrychoedd, cyrsiau dŵr naturiol, pyllau, ac ati.
- ☐ Lle bo'n briodol, darluniau gweledol a lluniau o olygfannau allweddol i ddangos effaith weledol datblygiad.
- ☐ Mesurau ar gyfer diogelu coed a llystyfiant sydd i'w cadw.
- ☐ Manylion sy'n gysylltiedig â ffyrdd mynediad dros dro, cyfansoddion, mannau storio ar gyfer y gwaith adeiladu.

[5] Mae hyn yn berthnasol i geisiadau ynghylch Polisi Datblygu 22 a Pholisi Datblygu 23, ac nid yw'n berthnasol i ddatblygiad a ystyrir o dan Bolisi Datblygu 29.

**Pe bai'r dystiolaeth a ddarperir gan ddatblygwyr yn annigonol i Swyddog Cynllunio asesu'r safle a'r datblygiad arfaethedig yn briodol ac yn gywir, bydd y cais yn cael ei wrthod.**

# Rhan Dau: Gwybodaeth a Chanllawiau ar Ddatblygiadau Penodol

## 9 Llety a Wasanaethir

9.1 Mae manteision gwestai a thai gwestai i gymunedau lleol yn cael eu cydnabod gan NCT 13: Twristiaeth, yn ogystal ag effaith colli gwestai i ddefnyddiau eraill. Mae NCT 13 yn datgan:
*"Drwy drosi'r stoc o westai ar gyfer dibenion eraill gellir gwanhau gallu tref i gadw ei statws fel cyrchfan, a dylai'r cynlluniau datblygu ar gyfer ardaloedd o'r fath roi sylw i'r mater hwn. Dylid gofalu peidio â defnyddio'r system gynllunio i barhau oes hen lety nad oes galw amdano yn y farchnad mwyach."*

9.2 Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd fod tai gwestai a gwestai yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu colli, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol. Mae'r golled hon wedi digwydd o ganlyniad i'r newid yn y defnydd a wneir o dai gwestai i unedau hunan arlwyo a defnyddiau eraill sydd ddim yn berthnasol i dwristiaeth. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod angen i lety o fewn y Parc Cenedlaethol newid dros amser, mae yna farchnad ar gyfer gwestai a thai gwestai o hyd ac maent yn rhan bwysig o'r ystod o letai a gynigir i ymwelwyr â'r parc.

9.3 Gall llety a wasanaethir gwneud cyfraniad mwy i economi'r Parc Cenedlaethol. Mae'r ardaloedd arfordirol yn arbennig o ddibynnol ar argaeledd llety a wasanaethir gan eu bod yn darparu swyddi ac yn sicrhau bod gwariant ymwelwyr yn digwydd yn yr ardal leol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cynnal y sector llety a wasanaethir trwy gefnogi gwella cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan y sector hwn ac uwchraddio lletai presennol.

9.4 Oherwydd pwysigrwydd gwestai a thai gwestai fel yr amlinellir uchod, ac yn unol â Pholisi Datblygu 28: Lletai wedi'u Gwasanaethu wedi eu Hadeiladu o'r Newydd, **bydd cynigion i drosi neu newid defnydd o lety a wasanaethir i ddefnyddiau eraill, yn enwedig os yw'r defnyddiau hynny'n golygu na fydd y trosi yn ôl i lety a wasanaethir yn y dyfodol yn bosibl, yn cael eu gwrthwynebu.** Yr unig eithriad fyddai cwrdd ag angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy. *Para 6.38*

9.5 Ble gynigir defnydd newydd ar gyfer Llety â Gwasanaeth presennol, fel y nodwyd ym Mholisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy, ac a eglurir ymhellach ym mharagraff 6.5 y CDLl, mae'n **ofynnol** bod cynigion ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth bresennol[6] (yn eithrio mewn safleoedd cyflogaeth allweddol[7]), yn darparu tystiolaeth sy'n dangos nad yw cadw'r gyflogaeth neu'r busnes bellach yn ddichonadwy yn fasnachol, ac na ellir ei ail-ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth debyg neu amgen ar ôl cael ei hysbysebu'n weithredol ar y farchnad am o leiaf blwyddyn. *Para 6.5*

9.6 Mae'r ddarpariaeth o lety a wasanaethir o ansawdd uchel yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy fel rhan o atyniad twristiaid presennol ac felly yn cydymffurfio ag egwyddorion twristiaeth gynaliadwy (fel yr amlinellir yn adran 5) a chyda meini prawf **Polisi Strategol I: Twristiaeth**. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i atyniad twristiaeth a lletai. At hynny, bydd rhagdybiaeth yn gyffredinol i wella atyniadau a llety presennol fel rhan o'r polisi hwn. *Para 6.37, 6.38*

9.7 Mae'r diagram a ganlyn yn rhoi arweiniad ar adrannau mwyaf perthnasol o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Eryri i'w hystyried wrth benderfynu ar gais am Lety a Wasanaethir:

[6] Mae hyn yn cynnwys gwestai, hostelau a thai llety ymwelwyr.
[7] Wedi'i leoli yn y Bala, Dolgellau a Harlech – gweler Papur Cefndir 4: Asesu Tir Cyflogaeth, a Mapiau o'r Cynigion a Mapiau Manwl am ragor o wybodaeth am y safleoedd hyn.



CDLl 2016-2031 Arweiniad ar gyfer Llety a Wasanaethir:
Polisi Strategol I: Twristiaeth
Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy
Gwarchod a Gwella yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol
Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol
Polisi Datblygu 28: Lletai wedi'u Gwasanaethu wedi eu Hadeiladu o'r Newydd
Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy
Llety a Wasanaethir
Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant
Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr
Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol

Diagram 1

## 10 Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd

10.1 Bydd lletai wedi'u gwasanaethu wedi eu hadeiladu o'r newydd yn cael eu caniatáu o fewn ac yn gyfagos i'r prif ardaloedd adeiledig o'r canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r holl bolisiau perthnasol o fewn CDLIE a'r Canllawiau Polisi Cenedlaethol. *Para 6.37*

10.2 Fodd bynnag, o fewn Ffiniau Datblygu Tai (gweler Mapiau Cynigion a Dogfen Mapiau Mewnosod); os oes angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy, **rhoddir blaenoriaeth i Dai Fforddiadwy.** Bydd hyn ddim ond yn berthnasol petai yna gystadleuaeth am ddatblygu safle penodol rhwng adeiladu Llety Newydd a Wasanaethir a Thai Fforddiadwy. Yn ogystal, byddai Llety a Wasanaethir yn fwy ffafriol na Llety Hunan-wasanaeth, am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff. 9.1-9.3. *Para 6.37, 6.38*

**<u>Polisi Datblygu 28 Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd (28)</u>**

Bydd adeiladu lletai newydd wedi'u gwasanaethu yn cael ei ganiatáu o fewn neu gyfagos i brif ardal adeiledig canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth, ac aneddiadau eilaidd cyn belled â bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

i. Nid yw'r cynnig ar safle sydd ei angen ar gyfer angen tai fforddiadwy lleol

ii. Mae graddfa a dyluniad y datblygiad yn gydnaws a'i leoliad.

Ni chaniateir newid defnydd llety wedi'i wasanaethu i'r sector di-wasanaeth, neu ei drosi ar gyfer defnydd arall nad yw a wnelo twristiaeth a fyddai'n atal ei drosi yn ôl i lety twristiaid a wasanaethir yn y Parc Cenedlaethol oni bai ei fod yn bodloni angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy.

10.3 Fel y nodwyd ym mharagraff 6.35 yn y CDLl, dim ond lle gellir dangos nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gymeriad 'Rhinweddau Arbennig Eryri' yn unig; bydd rhaid i'r datblygiadau gael eu lleoli yn agos at brif ffordd fel nad yw'n rhoi rhagor o bwysau ar ffyrdd bach gwledig a all fod yn anaddas, ac ni ddylent achosi cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth geir. *Para 6.35*

10.4 Mae'r diagram a ganlyn yn rhoi arweiniad ar yr adrannau mwyaf perthnasol o CDLl Eryri i'w hystyried wrth benderfynu ar gais am Letai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladau o'r Newydd:

CDLl 2016-2031 Arweiniad ar gyfer Lletai wedi'u Gwasanaethu wedi eu Hadeiladu o'r Newydd:





Diagram 2

## 11 Llety Hunan-Wasanaeth a Throsiadau

11.1 Mae nifer yr unedau hunan-wasanaethu yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol, gyda chanran helaeth o'r unedau hyn wedi'u lleoli ar hyd yr ardaloedd arfordirol. Nododd y dystiolaeth a gasglwyd ac a gafodd ei gyflwyno yn y Papur Cefndir Twristiaeth fel rhan o baratoi'r CDLl, fod yna ormod o ddarpariaeth dros dro o lety hunanarlwyo yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r lletai o'r fath yn cynnwys carafannau, cabanau a thai gwyliau, bythynnod a fflatiau hunanarlwyo.

11.2 **Yn achos Lletai Hunanarlwyo Newydd, bydd cynigion yn ddarostyngedig i amod fel a ganlyn;**

*'Bydd y llety gwyliau hunanarlwyo a ganiateir yma ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr yn unig, ac ni chaiff ei ddefnyddio fel ail gartref nac ar gyfer unig breswylfa'r preswylwyr. Ni chaiff neb feddiannu'r llety gwyliau a ganiateir drwy hyn am gyfnod parhaus o fwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr.* ***Rhaid cynnal cofrestr gyfoes o enwau'r holl feddianwyr, gan gynnwys eu prif gyfeiriadau cartref, a dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar gais i'w harchwilio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.'*** Bydd yr Awdurdod yn gwneud cais i weld cofrestr o breswylwyr sy'n aros yn yr unedau i sicrhau y glynir wrth yr amod.

11.3 Mae **Polisi Datblygu 9: Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig** o fewn cyd-destun Llety Ymwelwyr yn cefnogi addasu adeiladau gwledig i'w defnyddio fel llety tymor byr (heb fod yn fwy na 28 diwrnod olynol fesul preswylydd) fel eiddo hunanarlwyo o ansawdd da fel rhan o gynllun menter wledig bresennol er budd economi leol y Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn gwneud cais i weld cofrestr o breswylwyr sy'n aros yn yr eiddo er mwyn sicrhau y glynir at yr amod. *Para 4.31*

**Diffiniad o Gynllun Menter Wledig sydd wedi'i gynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 6 (para 4.3.2):**

*'...busnesau sy'n gysylltiedig â thir yw mentrau gwledig cymwys. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau amaethyddol, coedwigol a gweithgareddau eraill y mae eu mewnbynnau sylfaenol yn deillio o'r safle, fel prosesu cynhyrchion amaethyddol, coedwigol a mwynol, ynghyd â gweithgareddau rheoli tir a gwasanaethau cymorth (gan gynnwys contractio amaethyddol), twristiaeth a mentrau hamdden. Os gellir cyfiawnhau hynny trwy dystiolaeth leol benodol, gall cynlluniau datblygu gynnwys diffiniad ehangach o fentrau gwledig cymwys.'*

11.4 Os yw'r addasiad yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol byddai'r Awdurdod yn gofyn am dystiolaeth bod y cynnig yn eilradd i gynhyrchu cnydau a da byw a bod y cynnig yn digwydd ar daliad sydd wedi'i gofrestru fel busnes amaethyddol presennol. Dylai defnydd 'eilradd' yn y cyd-destun hwn, fod yn ddarostyngedig i'r prif ddefnydd gwreiddiol o ran graddfa a gweithgaredd, a gwneud cyfraniad economaidd i gynnal neu wella gallu tymor hir daliad y fferm i weithio'n llwyddiannus fel menter amaethyddol. Byddai cynlluniau fferm hefyd yn ddefnyddiol i gefnogi cais i ddangos sut mae'r llety gwyliau hunanwasanaeth tymor byr yn cyd-fynd â'r darlun ffermio ehangach. Bydd darparu gwybodaeth i ddangos dilysrwydd y busnes amaethyddol ac i ddangos sut y bydd y llety hunanarlwyo yn cyfrannu at gyd-destun cyffredinol y busnes yn hanfodol i sicrhau bod y cais cynllunio yn cydymffurfio â gofynion y polisi, ac y bydd yn osgoi *Para 6.29, 6.30*


ymholiadau pellach ac oedi ymhellach i lawr y lein.

11.5 Dylai cynlluniau menter wledig eraill sy’n cyd-fynd â’r diffiniad yn NCT 6 ddarparu tystiolaeth bod y cynllun menter wledig bresennol yn fenter sefydledig ynghyd â chynllun busnes ar gyfer y fenter i ddangos sut mae’r llety gwyliau hunanwasanaeth tymor byr yn cyd-fynd â’r cynllun menter wledig ehangach. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio rhwymedigaeth neu amod Gynllunio i glymu’r adeilad a addaswyd i’r tir, er mwyn annog pobl i beidio â darnio’r cynllun menter yn ddiweddarach trwy werthu’r adeilad ar wahân ac i’w hatal rhag cael eu gwerthu ar wahân heb wneud cais pellach i’r awdurdod. *Para 4.31*

11.6 Gall Trosi Adeiladau Gwledig fod o fudd gan eu bod yn annog ailddefnyddio adeiladau sydd heb eu defnyddio neu sydd yn segur, a allai alluogi ar gyfer defnyddio adeiladau traddodiadol unwaith eto a thrwy hynny atal eu dirywiad. Gall Ailddefnyddio ac Ailwampio Adeiladau Traddodiadol wneud cyfraniad cadarnhaol i amgylchedd adeiledig y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, lle mae'r cynnig yn cynnwys adeilad rhestredig neu adeilad o ffurf neu ddyluniad traddodiadol, rhaid i'r cynnig gydymffurfio â Pholisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol. Bydd swyddogion yn gofyn am Arolwg Strwythurol a wnaed gan Beiriannydd Strwythurol Annibynnol, â chymwysterau priodol, os oes amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad. *Para 4.30*

11.7 Bydd angen arolwg o rywogaethau a warchodir i gefnogi cais i addasu adeiladau gwledig. Oherwydd natur dymhorol yr arolygon, mae angen ystyried y rhain yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu’r cynnig cynllunio i osgoi oedi wrth brosesu’r cais. *Para 3.4*

11.8 Mae'r diagram a ganlyn yn rhoi arweiniad ar y rhannau mwyaf perthnasol hynny o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a ddylid eu hystyried wrth benderfynu ar gais am Letai Hunan-Wasanaeth:


CDLl 2016-2031 Arweiniad ar gyfer Lletai Hunan-Wasanaeth ac Addasiadau:
Lletai Hunan-Wasanaeth ac Addasiadau
Polisi Strategol I: Twristiaeth
Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy
Gwarchod a Gwella yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol
Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol
Polisi Datblygu 9: Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig
Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy
Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant
Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr
Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
Diagram 3

## 12 Gwelliannau i safleoedd cabanau a charafannau sefydlog presennol

12.1 Mae NCT 13 (Twristiaeth) yn datgan: '*Dylid sgrinio safleoedd newydd ac estynedig yn effeithiol, a'u cynllunio fel nad ydynt yn weledol ymwthiol. Mewn rhai achosion, er mwyn hyrwyddo gwelliant neu adleoli, gall fod angen i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried rhywfaint o ymestyn ar arwynebedd y safle, er mwyn gweithredu gwell cynllunwaith a gwell tirlunio. Gall fod angen hefyd i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried rhannu safleoedd mawr yn unedau llai i leihau yr effaith gyffredinol ar yr amgylchedd.*'

12.2 O fewn CCA 13 yr Awdurdod: Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd (Hydref 2016), cynhaliwyd astudiaeth i adolygu Sensitifrwydd Ynni Gwynt, Ynni Solar, Llinellau Uwchben, Mastiau Symudol a Meysydd Carafannau a Chabannau Sefydlog ar Dirwedd Cymru. Mae canfyddiadau'r data ar Sensitifrwydd Cyffredinol i Safleoedd Carafannau a Chabannau Sefydlog yn dangos bod sensitifrwydd ar y sbectrwm canolig i uchel iawn yn y Parc Cenedlaethol drwyddo draw heb unrhyw Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) ar y sbectrwm isel i ganolig. (Gweler CCA 13: Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd ar gyfer y canfyddiadau data llawn ar Sensitifrwydd Cyffredinol i Feysydd Carafannau a Chabannau Sefydlog o fewn pob Ardal Cymeriad Tirwedd ACT).

*Para 6.34, 6.39*

12.3 Nid yw agoredrwydd ardaloedd arfordirol yn addas ar gyfer datblygiadau carafanau, gan fod y tirlun dim ond gydag ychydig o dirffurfiau naturiol ac ardaloedd lle mae yna goetiroedd a fyddai'n cynnig sgrin; ac yn aml yn cael eu gweld o dir uwch. Mae mwyafrif o'r safleoedd mawr ar hyd Arfordir Ardudwy ac yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd. Am y rheswm hwn, nod y polisïau o fewn y CDLl yw lleihau effaith y safleoedd presennol trwy beidio â chaniatáu unrhyw ychwanegiad at nifer y meysydd presennol neu safleoedd newydd. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn cefnogi uwchraddio cyfleusterau o fewn safleoedd. Fel eithriad, gellid caniatáu estyniadau safle **heb ragor o feysydd**, os byddai hyn yn rhan o welliant amgylcheddol cyffredinol i'r safle ac yn arwain at leihau effaith gyffredinol y safle ar yr amgylchedd o gwmpas.

*Para 6.40*

Yn unol â NCT 13 Twristiaeth, mae **Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog** yn y CDLl yn cefnogi gwelliannau amgylcheddol ac uwchraddio cyfleusterau ar safleoedd carafánau a chabannau sefydlog er mwyn lleihau eu heffaith ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae yna ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol lle mae safleoedd carafánau sefydlog mawr yn cael effaith dirfawr ar y golygfeydd o fewn y Parc Cenedlaethol, ac i mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r unedau carafannau wedi'u gosod mewn rhesi catraidd a does dim ond ychydig neu brin ddim sgrinio i feddalu eu heffaith ar y dirwedd. Ychydig neu ddim tirlunio mewnol sydd ganddyn nhw hefyd er mwyn torri dwysedd a rheoleidd-dra'r datblygiad o fewn y safle.

12.4 **Polisi Datblygu 22: Safleoedd Carafannau a Chabannau Sefydlog** yw'r polisi blaenaf. Os cynigir estyniad i safle, **bydd angen i'r ymgeisydd ddangos yn gwbl glir sut mae'r datblygiad yn cynnig budd i'r safle a'i fod yn gynnig di-dwyll gwirioneddol i leihau effeithiau amgylcheddol (gan gynnwys yr effaith ar y Warchodfa Awyr Dywyll), ac nid yn ymgais i ymestyn ffiniau i greu mwy o le ar gyfer datblygu o fewn y safle.** Er enghraifft, gellid cefnogi estyniad ffisegol os yw hyn yn helpu i leihau dwysedd mewn meysydd carafanau, nid yw'n cynyddu lleiniau ac mae'n creu mwy o le ar gyfer tirlunio sy'n arwain at well cynllun cyffredinol.

*Para 6.40*

12.5 Lle bo'r cais hefyd yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol sylweddol a pharhaol, byddai'n rhaid i'r Asesiad o Effeithiau Gweledol ar y Dirwedd (AEGT) ddangos budd net i dirwedd a mwynderau gweledol y Parc Cenedlaethol. Dylid canolbwyntio ar fuddion tuag at ardaloedd y datblygiad sy'n bodoli'n barod sydd â thirlun lle mae yna effaith weledol

*Para 6.39, 6.40*

andwyol ar hyn o bryd.

12.6 Gweler rhan 8 am arweiniad pellach.

## 13 Safleoedd teithiol a gwersylla

13.1 **Ni fydd yr Awdurdod yn cefnogi darpariaeth safleoedd carafannau teithiol na safleoedd gwersylla newydd yn y Parc Cenedlaethol.** Gellir diffinio safleoedd teithiol a gwersylla fel y defnydd o dir (ar gyfer gosod) lle mae ymwelwyr yn dod â'u llety gwyliau dros dro eu hunain ar ffurf pebyll neu garafanau / gwersyllwyr teithiol. Pwrpas **Polisi Datblygu 23: Safleoedd Carafanau Teithiol a Gwersylla** yw sicrhau gwelliannau i'r safleoedd presennol o fewn y Parc Cenedlaethol, nid i ganiatáu ar gyfer creu safleoedd newydd. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys gwelliannau tirlunio amgylcheddol a mewnol i'r safle. Fodd bynnag, prif nod y polisi yw **peidio** â chaniatáu i'r cynnydd yn nifer y lleiniau ar safleoedd presennol ond i wella'r cyfleusterau presennol ac i leihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd. Dim ond ar safleoedd priodol y caniateir cynnydd yn nifer y lleiniau lle cynigir gwelliannau amgylcheddol sylweddol a lleihad yn yr effaith ar y dirwedd o'i amgylch. Bydd yn rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod y gwelliannau cyffredinol i'r safle yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau'r cynnydd yn nifer y lleiniau. *Para 6.41, 6.42*

13.2 Mae angen i safleoedd sydd yn ceisio estyniad eisoes gael eu sgrinio'n dda o brif olygfannau cyhoeddus ac fe ddylai graddfa unrhyw gynnydd mewn lleiniau fod yn briodol gyda'u hamgylchoedd ac yn unol â maint y safle sy'n bodoli'n barod. Rhaid i estyniadau fod ynghlwm yn ffisegol â'r safle presennol. Gallai gwelliannau gynnwys symud y lleiniau sy'n bodoli'n barod i ran arall o'r safle sydd wedi cael ei sgrinio'n well o fewn y tirlun neu drwy ddarparu sgrinio newydd ychwanegol ar y ffin ac o fewn y safle. *Para 6.41*

13.3 Bydd yr Awdurdod yn gofyn am gynllun manwl i safon broffesiynol o'r gwelliannau tirlunio mewnol presennol ac arfaethedig fel rhan o'r estyniad neu gynigion ar gyfer uwchraddio. Gweler rhan 8 am arweiniad pellach. *Para 6.41*

13.4 Os bydd estyniad y safle'n cynnwys ychwanegu 10 neu fwy o leiniau, yna bydd yr Awdurdod yn disgwyl bod asesiad o Effaith Ieithyddol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais. *Para 5.47*

13.5 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried yr effaith gronnol ar y dirwedd yn sgil unrhyw gynnydd mewn unedau ar safleoedd unigol, yn enwedig lle mae nifer fawr o safleoedd yn agos at ei gilydd. Gall hyn olygu y bydd angen darparu dogfennau ategol ychwanegol, gweler rhan 6 a 7 am arweiniad pellach. *Para 6.43*

## 14 Cais am estyniadau i'r tymor ar Safleoedd Carafanau Teithiol

14.1 Rhoddir ystyriaeth i estyn y tymor ar safleoedd teithiol ar gyfer carafanau sydd ar daith, cyn belled a bod y safle eisoes wedi'i sgrinio'n dda. Bydd sgrinio presennol sy'n cynnwys coed collddail a bytholwyrdd cymysg yn ystyriaeth arbennig o bwysig yn yr achos hwn er mwyn sicrhau bod y safle wedi'i sgrinio'n dda trwy gydol y flwyddyn. Lle byddai cynnydd yn yr effaith ar y dirwedd, dros y gaeaf, ni fyddai'r cais yn cael ei ystyried yn ffafriol.

## 15 Carafanau Teithiol - Storio dros y Gaeaf

15.1 Ystyrir ceisiadau am storio carafanau teithiol yn y gaeaf yn erbyn y polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol (fel yr amlinellwyd yn flaenorol) gan gynnwys **Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd** a **Pholisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol.** Gall storio carafanau teithiol dros y gaeaf gael effaith negyddol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol, yn enwedig os na chaiff y safle arfaethedig ei sgrinio'n dda. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi storio o fewn yr adeiladau presennol (lle y bo hynny'n addas) i leihau'r effaith ar y dirwedd, neu ar feysydd o fewn y safle sy'n cael eu sgrinio'n dda a'u cuddio o olygfannau cyhoeddus. Os nad yw'r safle storio dros y gaeaf arfaethedig wedi cael ei sgrinio'n dda, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried y cynllun fel un priodol.

## 16 Cais am estyniadau i'r tymor ar Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog

16.1 Bydd ceisiadau a ganiateir mewn perthynas ag estyniadau tymhorau ar Safleoedd Carafanau Sefydlog yn ddarostyngedig i'r amod a ganlyn;

*'Rhaid i'r carafannau gael eu meddiannu ar gyfer dibenion gwyliau yn unig ac ni chant eu meddiannu fel unig berson neu brif breswylfa. Ni chaiff neb feddiannu'r llety gwyliau a ganiateir drwy hyn am gyfnod parhaus o fwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Rhaid i'r perchnogion / gweithredwyr gadw cofrestr gyfredol o enwau holl berchnogion / deiliaid carafanau unigol a'u cyfeiriadau prif gartref, a bydd yn rhoi'r wybodaeth hon ar gael bob amser rhesymol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.'*

16.2 Bydd ceisiadau a ganiateir sy'n berthnasol i estyniadau tymhorau ar Safleoedd Cabannau yn ddarostyngedig i'r amod a ganlyn;

*'Bydd y cabanau yn cael eu meddiannu ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr yn unig, ac ni chaniateir eu defnyddio fel ail gartref neu ar gyfer unig gartref neu'n brif breswylfa i'r deiliaid. Ni chaiff neb feddiannu'r llety gwyliau a ganiateir drwy hyn am gyfnod parhaus o fwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Rhaid cynnal cofrestr wedi ei ddiweddaru o enwau'r holl feddianwyr, gan gynnwys eu prif gyfeiriadau cartref ac dylai'r wybodaeth fod ar gael ar gais i'w harchwilio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.'*

## 17 Llety Gwyliau Amgen

17.1 Yn y blynyddoedd diwethaf bu datblygiad sylweddol yn y mathau o letai dros dro / symudol hunanarlwyo amgen ar y farchnad (gweler y rhestr isod). Maent wedi dod yn gynyddol boblogaidd, ac mae 'glampio' bellach yn fath arall o brofiad gwyliau. Mae'r CDLl diwygiedig 2016-2031 wedi cyflwyno Polisi Datblygu 29: Llety Gwyliau Amgen i gefnogi cynigion llety gwyliau amgen ar raddfa fach ym Mharc Cenedlaethol Eryri. *Para 6.43*

17.2 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad y gall y ffurfiau newydd hyn o letai hunanarlwyo amgen eu gwneud wrth ddarparu ystod ehangach o letai sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol, ac maent hefyd yn darparu manteision ehangach i'r economi leol. *Para 6.43*

17.3 Mae'r mathau o lety a fyddai'n cael eu hystyried o dan y polisi hwn yn cael effaith isel, ac o raddfa fach o ran natur. Maent yn gyffredinol yn llai ymwthiol na charafannau sefydlog a theithiol traddodiadol oherwydd fe'i bwriadwyd i sicrhau mwynhad tawel o'r ardal hon gan ymwelwyr, ac i ddarparu'r math o brofiad 'yn ôl at natur'. O ganlyniad, gellir eu hystyried yn Llety Gwyliau Cynaliadwy Amgen Effaith Isel. **Cydnabyddir bod y farchnad yn datblygu'n barhaus felly bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol yn unol â'r holl bolisi a chanllawiau cynllunio lleol cenedlaethol perthnasol, gan ystyried unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol.** *Para 6.43*

Mae'r mathau hyn o letai yn cynnwys:

- Podiau
- Tipis
- Yurts
- Cytiau Bugail
- Wageni
- Trelars
- Roulotte
- Geodomau
- Tai Coed

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

17.4 Gan fod datblygiadau Llety Gwyliau Amgen o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn gynnig 'newydd' a gwahanol, mae'n cael ei annog i archwilio llety ymwelwyr cynaliadwy **arloesol** a fyddai'n gwarchod a gwella 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal, gan hefyd feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Cefnogir cynigion sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy fel y nodwyd yn adran 5, sy'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. *Para 6.43*

17.5 Er mwyn osgoi cynyddu safleoedd ac effeithiau cronnol andwyol, ac i gefnogi economi wledig leol y Parc Cenedlaethol, **dim ond cynigion sy'n rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol dilys neu sy'n ategol i atyniad twristiaeth newydd neu sy'n bodoli eisoes fydd yn dderbyniol.** *Para 6.44*

17.6 Diffinnir 'atyniad twristiaeth' fel lle sy'n cynnig hamdden, antur, diwylliant neu ddifyrrwch, gan ddenu pobl i ymweld a phrofi'r cynnig penodol o fewn y safle ei hun. Dylai'r atyniad sefyll yn ôl ei deilyngdod ei hun, a pheidio â dibynnu ar fentrau ategol fel caffis, neu'r datblygiad llety gwyliau amgen arfaethedig er mwyn cydymffurfio â meini prawf a fabwysiadwyd ym mharagraff 6.50 o'r CDLl 2016-2031. Ystyrir llety twristiaeth *Para 6.50*

fel 'cyfleusterau' yn hytrach nag 'atyniad'.

Bydd yr Awdurdod yn gofyn am dystiolaeth bod y cynnig yn rhan o **gynllun arallgyfeirio amaethyddol** sy'n cael ei gynnal ar ddaliad sydd wedi'i gofrestru fel busnes amaethyddol presennol. Byddai Cynllun Fferm hefyd yn ddefnyddiol o ran cefnogi ceisiadau i ddarparu mwy o wybodaeth ar hyfywedd ffermydd a'r achos dros arallgyfeirio. (Gweler paragraff 11.4 o'r CCA hwn am ganllawiau pellach). Bydd yn rhaid i gynigion gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn NCT 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a **Pholisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol - maen prawf (i - iv).** Cred yr Awdurdod mai'r deilydd yr uned amaethyddol dylai elwa o'r arallgyfeiriad. Ni fydd yr Awdurdod yn edrych yn ffafriol ar geisiadau all arwain at ddarnio'r uned amaethyddol.

*Para 6.30, 6.31, 6.49*

Os yw'r cynnig i gefnogi **atyniad ymwelwyr sy'n bodoli'n barod**, yna bydd angen darparu cynllun busnes ar gyfer y fenter i ddangos na fydd yr atyniad ymwelwyr yn dibynnu'n unig ar y llety amgen a bod yr atyniad i dwristiaid yn parhau i fod yn hyfyw, ac y bydd yn parhau i weithredu, gan sicrhau nad yw'r safle yn dod yn llety amgen yn unig. Bydd amod ynghlwm wrth y cynnig a ganiateir, a fydd yn datgan pe bai'r atyniad ymwelwyr yn dod i ben yna bydd yn rhaid symud yr unedau llety amgen.

*Para 6.50*

17.7 Y prif ystyriaethau fydd **yr angen i warchod y dirwedd**, felly bydd angen i unrhyw gynnig ar gyfer y datblygiad hwn **fod ar raddfa fach ac mewn lleoliad anymwthiol.** Yn y cyd-destun hwn, mae graddfa fechan yn ymwneud â chynhwysedd y safle a ddewiswyd i gymathu'r datblygiad a lle nad yw'r datblygiad yn cystadlu am sylw gweledol gyda'r dirwedd naturiol.

*Para 6.45*

Fel arfer caiff podiau eu hadeiladu oddi ar y safle ac fe'u cludir ar y safle fel uned wedi'i chwblhau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ymdrinnir â strwythurau o fath cabannau yn nhermau polisi cynllunio'r un fath â charafanau a chabannau sefydlog ac felly fe'u hystyrir yn unol â **Pholisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafannau Sefydlog** y CDLl. O dan y polisi hwn, byddai'r Awdurdod yn rhoi ystyriaeth ffafriol i ddisodli unedau sefydlog â phodiau fel rhan o gynllun gwella safle cyffredinol lle bo'n briodol.

*Para 6.46*

17.8 **Bydd angen i ddatblygiadau fod mewn lleoliadau sydd eisoes wedi'u sgrinio'n dda gan dirffurf a llystyfiant presennol, lle gellir cymhathu'r unedau yn hawdd i mewn i'r dirwedd a chael effaith weledol anymwthiol yn y tirlun ehangach. Ni chaniateir datblygiadau ble nad ydynt yn dod o fewn y disgrifiad hwn. Mae'n well cael lleoliadau sydd wedi cael eu sgrinio'n dda gan goetir sy'n bodoli eisoes neu osodiad coedyddol sy'n gallu darparu sgrinio digonol (trwy'r gaeaf hefyd), gan gynnwys nodweddion naturiol, ffiniau traddodiadol effeithiol neu strwythurau fferm. Byddai tirlunio <u>atodol</u> yn cael ei groesawu lle mae coetir presennol gerllaw – er na ddylid ei ddefnyddio i wneud datblygiad wedi'i sgrinio'n aneffeithiol yn dderbyniol.**

*Para 6.45, 6.46*

17.9 **Bydd angen cynllun manwl ar yr Awdurdod yn dangos y datblygiad arfaethedig, golygfeydd o'r safle (gyda ffotograffau) a'r tirlunio presennol pan gyflwynir cais.** Bydd safleoedd anaddas yng nghefn gwlad agored lle nad oes sgrinio naturiol yn bodoli neu pan fo'r datblygiad mewn lleoliad sensitif ac / neu amlwg, yn cael eu gwrthod. Ni chaniateir cloddio gormodol / sylweddol, yn enwedig o fewn ardaloedd diogelu gwreiddiau coed. Gellir caniatáu cloddio cydymdeimladol lle bo hynny'n briodol, cyn belled a bod methodoleg weithio briodol yn cael ei chynnal, h.y. dim peiriannau trwm mewn ardaloedd a fyddai'n achosi effeithiau niweidiol i'r tirwedd. *Para 6.45*

17.10 Pan fo ceisiadau cynllunio yn codi pryderon ynghylch effeithiau ar y tirlun a / neu amwynderau gweledol, bydd angen Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd gan yr Awdurdod, gan gynnwys ffotograffau o olygfannau a gytunwyd arnynt gyda'r Awdurdod. Gweler adran 6 a 8 am ragor o fanylion. *Para 6.45*

17.11 Bydd golygfeydd o fannau cyhoeddus a gytunwyd arnynt gyda'r Awdurdod hefyd yn hanfodol wrth asesu addasrwydd unrhyw safle penodol. Lle bo hynny'n briodol, bydd angen Asesiad o Effaith Weledol ar y Dirwedd a ffotomontagau o olygfannau a gytunir arnynt gyda'r Awdurdod. Dylai'r datblygiad barchu cyfuchliniau naturiol y dirwedd a pharchu a diogelu golygfeydd. Bydd **natur, lleoliad a gosodiad, maint, uchder, graddfa, dyluniad a lliw**'r unedau llety yn hanfodol yn hyn o beth. Yn gyffredinol, bydd dimensiynau'r strwythurau yn cael eu pennu gan allu'r safle a'i gapasiti i'w sgrinio o fannau cyhoeddus. Dylid osgoi llawr caled (hardstanding), ffensio a nodweddion eraill dynol. Yn ogystal, er mwyn diogelu Dynodiad Awyr Dywyll y Parc Cenedlaethol, ni chaniateir unrhyw oleuadau ymwthiol y tu allan. *Para 6.45*

17.12 Rhaid i'r datblygiad dangos bod yr unedau llety yn wirioneddol dros dro o ran eu natur ac y gellir eu symud, neu eu datgymalu a'u symud, yn dibynnu ar strwythur yr uned(au) pan nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. Bydd effaith weledol y safle yn ystod misoedd y gaeaf, pan nad oes dail ar y coed, yn ystyriaeth bwysig. Bydd p'un a fydd y datblygiad yn cael ei ganiatáu i aros yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar y cynnig a'r lleoliad. *Para 6.45, 6.46, 6.47*

17.13 Gan fod llety gwyliau amgen o natur dros dro, pe bai'r defnydd yn dod i ben, bydd yn rhaid symud y llety gwyliau amgen, felly bydd angen i'r Awdurdod ofyn am strategaeth fanwl sy'n amlinellu sut y bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol a'i ddefnyddio os bydd y cynnig defnydd yn dod i ben fel rhan o'r cais. **Bydd ceisiadau a ganiateir yn ddarostyngedig i amod er mwyn sicrhau hyn.** *Para 6.47, 6.51*

17.14 Er mwyn atal gosod cyfarpar / dodrefn ychwanegol a fydd yn cael effaith andwyol ar y dirwedd a'r amwynderau gweledol o gwmpas y safle neu yng nghyffiniau'r unedau llety, bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio. Gosodir amodau i gyfyngu ar gyfarpar / dodrefn ychwanegol a fydd yn cael effaith andwyol ar y dirwedd a mwynderau gweledol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau i fod mor anymwthiol â phosibl ac i leihau effeithiau gweledol annibendod dynol yn y wlad. *Para 6.45, 6.46, 6.47*

17.15 Mae pwyslais y datblygiadau hyn i raddau helaeth ar ddatblygiadau ar raddfa fach ac 'yn ôl i natur' lle mae effeithiau amgylcheddol a gweledol yn gyn llleied â phosibl. Dylai unedau llety unigol fod o faint cymedrol a dylent ddarparu'r cyfleusterau mwyaf sylfaenol yn unig. Yn gyffredinol, ni fydd unedau hunangynhwysol gyda thoiledau a chawodydd yn cael eu cefnogi er mwyn cadw'r unedau mor fach â phosib ac i leihau eu heffaith ar y dirwedd, oni bai y gellir darparu cyfiawnhad cymhellol. *Para 6.47, 6.48, 6.39, 6.40*

17.16 Mae Maen Prawf (iv) Polisi Datblygu 29 yn cyfarwyddo y dylid lleoli cyfleusterau ategol, gan gynnwys toiledau a chawodydd, mewn adeilad sy'n bodoli eisoes neu fel estyniad i'r cyfleusterau presennol. Os nad oes adeiladau addas ar gael, dylid dangos yr angen am gyfleusterau[8] ychwanegol dros dro effaith isel yn glir, a dylent fod yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad a chymeriad y safle y mae wedi'i leoli. Os bydd y defnydd o lety gwyliau amgen yn dod i ben, bydd rhaid symud y cyfleusterau hyn ac adfer y safle yn unol â manylion a ddylai cyflwyno gyda'r cais cynllunio. *Para 6.47, 6.48*

17.17 Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd yr ansawdd o safon is; gellir mesur 'ansawdd' llety gwyliau amgen yn nhermau unigrywiaeth y profiad wrth greu ymweliad cofiadwy ac nid yn unig o ran cyfleusterau 'moethus'; gweler y ddolen isod ar gyfer **llyfryn Llywodraeth Cymru ar 'Safon Ansawdd Glampio'** ar gyfer nodweddion glampio cynaliadwy safonol y gellir ei ystyried yn ddatblygiad derbyniol o fewn y Parc Cenedlaethol. Fel y nodwyd yn y llyfryn, pwrpas y cynllun hwn yw gwneud y mwyaf o botensial busnes safleoedd glampio lle bydd yr asesiad yn cael ei gynnal er mwyn dyfarnu achrediad a rhoi adborth manwl ar gyfer gwelliannau pellach. Mae dwy lefel o gydnabyddiaeth yn y cynllun Glampio: Achrediad Croeso Cymru a Gwobr Aur Croeso Cymru. Nod yr asesiad yw tynnu sylw at gryfderau'r busnes, a darparu cefnogaeth a chyfarwyddyd lle nad yw'n amharu ar gymeriad, arddull na natur unigryw'r busnes.

https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/tourism/WG31965_Glamping_Grading_Brochure_W.pdf

17.18 Derbynnir y bydd safleoedd yn wledig eu natur ac y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cyrraedd mewn car preifat. Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd, rhoddir blaenoriaeth i'r datblygiadau hynny sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau beicio. Gweler **Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth** am arweiniad pellach. Gall mannau parcio ychwanegol gael effaith andwyol ar y dirwedd. Ni ddylai'r cynnig datblygu arwain at greu mynedfa i gerbydau neu lefydd parcio a fyddai'n effeithio'n andwyol ar gymeriad y dirwedd. Ni ddylai greu neu ehangu unrhyw faes parcio fod yn niweidiol i amwynderau preswyl neu fynediad i'r ffordd ac fe ddylai fod yn gyson â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Bydd ystyriaethau parcio yn dibynnu ar y lleoliad, y nodweddion tirlun presennol o ran sgrinio a'i effaith weledol.

17.19 Bydd angen egluro'r math penodol o lety gwyliau amgen o fewn y broses ymgeisio, a gosodir amod pan gaiff ei ganiatáu i sicrhau bod y datblygiad yn cyd-fynd â'r cynlluniau cytunedig. Pe bai'r angen i newid y math o lety yn codi, bydd angen cyflwyno cais newydd neu gais i amrywio'r amod olaf, yn dibynnu ar y math presennol o lety a gynigir. Fel y nodwyd yn flaenorol ym mharagraff 11.2 gyda llety hunan-wasanaeth, dim ond ar gyfer llety gwyliau hunan-arlwyo tymor byr y bydd cynigion yn cael eu caniatáu a bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy gyfrwng amod. Bydd yr amod cyflwr yn cyfyngu'r feddiannaeth fel nad yw'n fwy na 28 diwrnod ar gyfer pob cyfnod a archebir ar wahân mewn un flwyddyn galendr ac yn mynnu bod cofrestr o breswylwyr yn cael ei gadw a'i fod ar gael i'w harchwilio gan yr Awdurdod ar gais. *Para 6.52*

[8] Gall cyfleusterau effaith isel gynwys toiled(au) compost, goleuadau ynni'r haul (sy'n cydweddu â'r awyr dywyll), cynaeafu dŵr glaw, stôf llosgi coed, llosgwyr nwy ac ati.

## Tai coed

17.20 Yn aml mae tai coed yn strwythurau coed / pren sylweddol sy'n cael eu hadeiladu sawl metr oddi ar y ddaear mewn ardaloedd coediog. Yn ogystal ag unedau llety gallant hefyd gynnwys llwyfannau a llwybrau cerdded uchel gyda chanllaw i afael arnynt a grisiau. Yn hytrach na bod yn gorfforol ynghlwm â choed, neu yn cael eu cefnogi gan goed, maent yn aml yn cael eu hadeiladu ar stiltiau fel adeileddau sydd wedi'u hangori yn y ddaear. O ganlyniad, mae ymdeimlad o strwythur parhaol iddynt, gan na ellir eu datgymalu'n hawdd. Gallant hefyd yn bosibl gael mwy o effaith ar y dirwedd a'r coed o gwmpas nag unedau llety ar lefel y ddaear, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf os ydynt wedi'u lleoli mewn coetir collddail. Gall tai coed hefyd fod yn niweidiol i iechyd a strwythur coed, i dawelwch a bioamrywiaeth, er enghraifft yn niweidiol i adar sy'n nythu ac ystlumod sy'n clwydo ac ystlumod sy'n bwydo, am eu bod yn cyflwyno sŵn a goleuadau artiffisial. Gan fod polisïau eraill yn y CDLlE yn diogelu coed a choetiroedd, a choetiroedd hynafol yn enwedig ochr yn ochr â pharciau a gerddi hanesyddol, byddai datblygiadau tai coed yn fwy addas ar gyfer planhigfeydd conwydd masnachol aeddfed, fodd bynnag, bydd pob cynnig datblygu yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun.

17.21 Bydd y math hwn o ddatblygiad yn golygu y bydd gofyn am arolwg coedwigaeth a mewnbwn ecolegol, er enghraifft arolwg rhywogaethau a warchodir, ynghyd â'r gofynion a nodir yn adran 5-8.

17.22 Mae'r diagram a ganlyn yn darparu arweiniad ar yr adrannau mwyaf perthnasol o Gynllun Datblygu Lleol Eryri sydd i'w hystyried wrth benderfynu ar gais am Lety Gwyliau Amgen:





Diagram 4

## Atodiad 1: Y Materion Tirwedd ar gyfer cynigion Llety i Ymwelwyr i'w hystyried

- Mae dewis a chynllun y safle i'w wneud defnydd da o'r tirffurf, y coed a'r lloc presennol ar gyfer datblygiad a defnyddiau tir dros dro cysylltiedig (pebyll, carafanau teithiol, parcio ceir ac ati) i fod yn anymwthiol o olygfeydd o'r tirwedd.

- Mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy'n gofyn am rannau sylweddol o blannu / sgrinio newydd am resymau integreiddio gweledol am fod yn briodol.

- Mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy'n agored ac yn agored i wyntoedd mewn ardaloedd arfordirol neu ucheldirol yn briodol (mae'r gallu i sgrinio datblygiad gyda phlannu newydd yn gyfyngedig iawn ac mae'r rhain yn amgylcheddau heriol ar gyfer cyfleusterau gwersylla / math carafanau).

- Dylid canolbwyntio datblygiad newydd a defnyddiau swyddogaethol cysylltiedig wrth ymyl adeiladau presennol – i ffwrdd o fannau agored i warchod rhinweddau naturiol y dirwedd a golygfeydd golygfaol.

- Mae datblygiad arwahanol, dwysedd isel a chynlluniau anffurfiol yn gweddu orau i batrymau tirffurf, coed, gwrychoedd ac afonydd naturiol ac yn helpu i gadw'r rhinweddau arbennig y mae ymwelwyr wedi dod i'r ardal i'w profi.

- Ffyrdd mynediad crwm, wedi'u gosod rhwng coed/tirffurf presennol, osgoi ffurfioldeb a llinellau syth artiffisial yn y dirwedd wledig.

- Byddai angen i unrhyw adeiladau newydd (toiledau / ystafelloedd ymolchi ac ati) gael eu lleoli'n strategol, bod yn strwythurau swyddogaethol cymedrol sy'n briodol i leoliad gwledig gyda deunyddiau a lliwiau wedi'u dewis ar gyfer y cyd-destun gwledig ac integreiddio gweledol. Dylai'r cyfleusterau fod o ansawdd uchel, yn natur wledig/ twristiaeth yn hytrach na natur ddinesig/swyddogaethol.

- Ni ddylid cyflwyno goleuadau ymwthiol i ardaloedd anghysbell. Dylai unrhyw oleuadau fod yn gyfyngedig a'u Cynllunio i Safonau Gwarchodfa Awyr Dywyll.

- Gellir ymgorffori plannu atodol ar gyfer sgrinio, amwynder a chymeriad y safle. Dylai'r dewis plannu i adlewyrchu rhywogaethau sy'n digwydd yn naturiol a graddau'r amlygiad i'r gwynt. Gall cloddiau helpu mewn lleoliadau agored.

- Mae lleoliad deniadol a chyfleuster ymwelwyr o ansawdd i'w gyflawni. Mae hyn yn gofyn am nodi'n ofalus y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer ffyrdd, adeiladau, waliau cerrig a phlannu. Ymgorffori traddodiadau adeiladu brodorol, deunyddiau a defnyddio lliw. Defnyddio crefftwaith wrth adeiladu waliau cerrig sych, adeiladau ac ailraddio tirffurf. Sylw i ymddangosiad mynedfa'r safle, y dderbynfa, a chynnal a chadw tir y safle.

- Anogir cynigion sy'n gwella cyfleusterau presennol, ansawdd profiad ymwelwyr ac yn gwella integreiddiad tirwedd.

## Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Atyniad Twristiaeth** | Lle sy’n cynnig hamdden, antur, diwylliant neu ddifyrrwch, gan ddenu pobl i ymweld a phrofi’r cynnig penodol o fewn y safle ei hun. Dylai’r atyniad sefyll yn ôl ei deilyngdod ei hun, a pheidio â dibynnu ar fentrau ategol fel caffis, neu’r datblygiad llety gwyliau amgen arfaethedig er mwyn cydymffurfio â meini prawf a fabwysiadwyd ym mharagraff 6.50 o’r CDLl 2016-2031. Ystyrir llety twristiaeth fel ‘cyfleusterau’ yn hytrach nag ‘atyniad’. |
| **Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)** | Canllawiau ffurfiol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod sy’n darparu mwy o fanylion i gefnogi polisiau cynllunio a fabwysiadwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol** | Cydnabyddir bod ehangu sylfaen economaidd gweithgareddau ffermio yn fodd i wella hyfywedd economi fferm yr ardal. Mae arallgyfeirio yng nghyd-destun y CCA hwn yn cyfeirio at weithgareddau sydd wedi’u cynnwys yn y diffiniad o amaethyddiaeth fel y’u diffinnir yn Adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Darperir cefnogaeth a manylion pellach am hyn ym Mholisi Datblygu 20 y CDLl. |
| **Datblygiad**<br>(fel y’u diffinnir yn Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) | Cynnal gwaith adeiladu, peirianyddol, cloddio neu waith mewn tir, ar dir, dros dir neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid defnydd perthnasol yn nefnydd unrhyw adeilad neu dir arall. |
| **Defnydd Eilradd** | Bod yn ddarostyngedig i’r prif ddefnydd gwreiddiol o ran graddfa a gweithgaredd, a gwneud gyfraniad economaidd i gynnal neu wella gallu tymor hir y busnes (e.e. daliad fferm, atyniad twristiaeth) i weithio’n llwyddiannus fel menter (amaethyddol neu wledig). |
| **Dilysrwydd**<br>(yng nghyd-destun cynllun arallgyfeirio amaethyddol) | Tystiolaeth sy’n tystio bod y cynllun arallgyfeirio amaethyddol yn digwydd ar fferm weithredol wirioneddol sydd wedi’i chofrestru fel daliad amaethyddol ac yn unol â’r diffiniad o ‘Amaethyddiaeth’ fel y’i diffinnir yn Adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |
| **Ecodwristiaeth**<br>(fel y’u diffinnir gan Gymdeithas Ecodwristiaeth Ryngwladol) | Teithio cyfrifol i ardaloedd naturiol sy'n gwarchod yr amgylchedd, yn cynnal lles y bobl leol, ac yn cynnwys dehongli ac addysg. |
| **Gynllun Menter Wledig**<br>(fel y’u diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 6) | ‘…busnesau sy’n gysylltiedig â thir yw mentrau gwledig cymwys. Mae’r rhain yn cynnwys busnesau amaethyddol, coedwigol a gweithgareddau eraill y mae eu mewnbynnau sylfaenol yn deillio o’r safle, fel prosesu cynhyrchion amaethyddol, coedwigol a mwynol, ynghyd â gweithgareddau rheoli tir a gwasanaethau cymorth (gan gynnwys contractio amaethyddol), twristiaeth a mentrau hamdden. Os |

| | |
|---|---|
| | gellir cyfiawnhau hynny trwy dystiolaeth leol benodol, gall cynlluniau datblygu gynnwys diffiniad ehangach o fentrau gwledig cymwys.’ |
| **Hyfywedd** | Cyfrannu at gyd-destun cyffredinol y busnes. Gwneud cyfraniad economaidd i gynnal neu wella gallu tymor hir y busnes (e.e. ffarm neu atyniad twristiaeth) i weithio’n llwyddiannus fel menter (amaethyddol neu wledig). |
| **LANDMAP** | System wybodaeth ddaearyddol i gofnodi a rheoli priodweddau a chymeriad y dirwedd. |
| **Nodyn Cyngor Technegol (NCT)** | Mae’r Nodiadau Cyngor Technegol yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **Twristiaeth Gynaliadwy** (fel y’u diffinnir gan Siarter Ewrop ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy) | Unrhyw fath o weithgaredd datblygu, rheoli neu dwristaidd sy'n sicrhau gwarchodaeth a chadwraeth hir dymor adnoddau naturiol, diwylliannol a chymdeithasol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol a theg at ddatblygiad economaidd a lles unigolion sy'n byw, yn gweithio neu'n aros yn yr ardaloedd gwarchodedig. |